Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

VOTE FOR NURSING
PLEIDLEISIWCH DROS NYRSIO
2021 Because Nursing Saves Lives.
Gan Fod Nyrsio'n Achub Bywydau.

# Nyrsio Atal a Rheoli Heintiau

# Crynodeb gweithredol ac argymhellion

Mae atal a rheoli heintiau (IPC) – cymhwyso microbioleg yn ymarferol mewn ymarfer clinigol – yn rhoi diogelwch cleifion wrth wraidd y broses o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae atal heintiau yn elfen ganolog o ymdrechion ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) ac ymdrechion gweithredu cenedlaethol/byd-eang. Mae deall sut y mae heintiau'n digwydd ac yn lledaenu yn hanfodol er mwyn atal heintiau ym mhob lleoliad bob amser.

Mae nyrsys IPC yn hybu diogelwch y claf, y cyhoedd a'r gweithiwr gofal iechyd (HCW). Mae'r swyddogaeth yn amlweddog, ond swyddogaethau mwyaf cyfarwydd nyrs IPC yw darparu cyngor arbenigol a galluogi gweithlu'r HCW, drwy addysg, i oruchwylio a datblygu polisïau ac arweiniad.

Mae cyngor nyrsio IPC yn amrywiol ac yn nodi cyfleoedd i ddatblygu haint drwy'r amgylchedd iechyd a gofal a rhyngweithiadau HCW/cleifion/cleientiaid. A hwythau'n arweinwyr a gweithwyr 'system', mae angen i nyrsys IPC ystyried dull gweithredu cyfannol o atal heintiau, gan weithredu fel pont rhwng iechyd y cyhoedd/diogelu iechyd a gwyddoniaeth. Un diwrnod, gallai nyrs IPC fod yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am hylendid dwylo, yna ar ddiwrnod arall, ganolbwyntio ar ddarparu cyngor ar ganlyniadau labordy a rheoli cleifion, neu ymchwilio i achosion sy'n effeithio ar leoliadau gofal iechyd a chymunedol, ac, ar adegau fel pandemig COVID-19, canolbwyntio ar gynllunio argyfwng a gwyliadwriaeth.

Dangosodd ton gyntaf pandemig COVID-19 werth cyngor IPC ac yn arbennig swyddogaeth timau nyrsio IPC. Mae'n bryd myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod y don gyntaf o bandemig COVID-19 a sicrhau wrth symud ymlaen fel rhan o’r dysgu ar ôl COVID-19 bod timau nyrsio IPC yn cael eu cydnabod yn gyfranwyr hanfodol at warchod a diogelu cleifion.

Bwriad y papur hwn yw rhoi gwybod i'r cyhoedd, pleidiau gwleidyddol a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol am bwysigrwydd IPC.

Mae Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru yn argymell bod Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, cyflogwyr ac asiantaethau perthnasol yn:

1. **Gwerthfawrogi a pharchu'r angen am gyngor nyrsio IPC ar lefel genedlaethol a lleol**
2. **Cefnogi'r gwaith o ehangu'r gweithlu atal a rheoli heintiau**
3. **Sicrhau gweithredu ar sail system gyfan i atal a rheoli heintiau drwy adolygu’r Cod Ymarfer (Cymru)**
4. **Edrych y tu hwnt i bandemig COVID-19 i roi diogelwch cleifion yn gyntaf ac integreiddio IPC wrth gyflawni diogelwch cleifion**

Cyhoeddwyd Mawrth 2021.
Cysylltwch â Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk am ragor o wybodaeth

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol ac argymhellion** 2

**Adran 1 Gwerthfawrogi'r angen am gyngor nyrsio IPC** 5

Llywodraeth Cymru 6
Byrddau iechyd lleol a chyflogwyr 7

**Adran 2 Cefnogi ac ehangu'r gweithlu IPC** 9

Cartrefi gofal 10
Swyddogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru 12
Addysg a Gwella Iechyd Cymru 13
Awdurdodau lleol a chyflogwyr 14

**Adran 3 Sicrhau dull system gyfan i atal a rheoli heintiau** 16

Cadw nyrsys 16
Camu ymlaen mewn gyrfa 17
*Nyrsys ymgynghorol* 18
Recriwtio 18
*Llwybr gyrfa* 19
*Nyrsys cyswllt* 20

**Adran 4 Edrych y tu hwnt i bandemig COVID-19 i roi diogelwch cleifion yn gyntaf** 22

# Adran 1 Gwerthfawrogi'r angen am gyngor nyrsio IPC

Mae cyngor nyrsio IPC yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a HCW fel y mae pandemig COVID-19 wedi'i amlygu.

Dylai gwerth a'r angen am gyngor nyrsio IPC gael eu hadlewyrchu yn yr holl strwythurau a darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, cyflogwyr ac asiantaethau perthnasol.

Mae cyngor nyrsio IPC yn amlweddog, yn amrywiol ac yn hanfodol i systemau gwaith a chyflawni gofal diogel. Mae cyngor a ddarperir gan nyrsys IPC yn amrywio o hylendid dwylo; dadansoddi a dihalogi labordai; caffael cyfarpar diogelu personol yn gynaliadwy; rheoli achosion unigol ac atal a rheoli achosion; i gynllunio a goruchwylio argyfwng. Hefyd, mae cyngor IPC yn ymestyn i'r amgylchedd adeiledig i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â systemau awyr, dŵr a pheirianyddol. Mae'r maes hwn o ymarfer nyrsio arbenigol yn unigryw yn ei ehangder a'i gyfrifoldeb, gan ei fod yn cwmpasu systemau iechyd a gofal a'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, sef asiantaeth iechyd cyhoeddus genedlaethol Cymru, yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau'r arfer o atal a rheoli heintiau. Archwilir swyddogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Adran 3.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar Lywodraeth Cymru, byrddau iechyd a chyflogwyr.

## Llywodraeth Cymru

Mae RCN Cymru yn cydnabod yr agweddau amrywiol ar swyddogaeth nyrs IPC a phwysigrwydd y swyddogaeth hon mewn meysydd gwneud penderfyniadau strategol.

Ar lefel Llywodraeth Cymru, mae angen cyngor nyrsio IPC strategol i sicrhau bod polisi a chanllawiau cenedlaethol wedi'u cynllunio'n briodol, yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf, ac yn cael eu gweithredu a'u cyflawni o ran rheoli heintiau.

Er bod cyngor nyrsio IPC o fudd uniongyrchol i gynllunio ynghylch pandemig COVID-19 neu achosion o ddolur rhydd a chwydu, mae hefyd yn hanfodol ar gyfer cynllunio ysbytai ac adeiladau newydd a rheoli ystadau ysbytai hŷn lle gall rheoli heintiau fod yn fwy cymhleth.

Mae RCN Cymru yn annog Llywodraeth Cymru yn gryf i gyflogi nyrs IPC arbenigol i gynghori Llywodraeth Cymru.

Byddai'r cyfoeth o wybodaeth sydd gan uwch-nyrs IPC brofiadol yn sicrhau bod pob agwedd ar atal a rheoli heintiau sy'n ymwneud â chanllawiau a pholisi yn cael eu hystyried. Gan ei bod yn gallu cyfathrebu a rhwydweithio'n fedrus, byddai o fudd mawr nid yn unig i Lywodraeth Cymru ond i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol cyfan, gan sicrhau polisïau addas i'r diben ac ymgysylltu o ran y gweithlu.

Hefyd, byddai uwch-nyrs IPC brofiadol o fewn Llywodraeth Cymru yn gallu cynghori ar y materion sy'n effeithio ar y gweithlu ehangach a gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i sefydlu fframwaith gyrfa IPC.

Dylid hefyd gynnwys swyddogaeth nyrs IPC arbenigol fel rhan o strategaethau amlbroffesiwn ar gyfer gweithgareddau AMR a rhaglenni stiwardio cysylltiedig.

## Byrddau iechyd lleol a chyflogwyr

Rhaid i fyrddau iechyd lleol a chyflogwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau bod yr angen am gyngor nyrsio IPC yn cael ei werthfawrogi a'i fod ar gael ar bob lefel a bod IPC yn rhan annatod o'r strwythurau llywodraethu sefydliadol.

Dylai fod gan bob bwrdd iechyd nyrs ymgynghorol IPC a dylai'r cyngor a ddarperir gan nyrs ymgynghorol IPC fod ar gael i sefydliadau sy'n darparu gofal a gomisiynir.

Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn cydnabod y byddai angen gwahanol agweddau ar gyngor nyrsio IPC ar y gwahanol lefelau o lywodraethu o fewn strwythurau byrddau iechyd lleol. Er enghraifft, ar lefel bwrdd, mae angen trosolwg strategol o weithgarwch a phryderon er mwyn sicrhau bod aelodau’r bwrdd yn cael gwybod am faterion sy'n ymwneud ag IPC o fewn eu bwrdd iechyd.

Ar y llaw arall, ar lefel ward ysbyty neu dîm cymunedol, mae angen dull gweithredu mwy manwl.

Er enghraifft, byddai nyrs IPC yn gallu cynghori tîm cymunedol sy'n mynd i wahanol aelwydydd ynghylch sut i sicrhau bod y claf a'r nyrs yn cael eu hamddiffyn rhag croes-halogi ac atal heintiau rhag lledaenu.

Byddai nyrs IPC hefyd yn gallu darparu cyfleoedd addysgol a hyfforddiant i'r tîm nyrsio cymunedol. Dylai hyn gael ei hwyluso gan fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a chyflogwyr ac asiantaethau perthnasol.

Mae'n bwysig bod cyngor nyrsio IPC yn un y gellir ei ddefnyddio ar bob lefel o fewn strwythurau byrddau iechyd lleol. P'un ai mewn ysbyty, cymuned neu gartref gofal, dylai nyrsys IPC allu cyfleu pwysigrwydd IPC a darparu gwybodaeth ac arbenigedd hanfodol.

# Adran 2 Cefnogi ac ehangu gweithlu'r IPC

Mae atal a rheoli heintiau yn hanfodol i iechyd a diogelwch iechyd claf/preswylydd; archwiliwyd hyn yn helaeth yn yr adran gyntaf. Fodd bynnag, nid yw IPC yn fater amlwg a gadwyd yn ôl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Yn hytrach, mae gan IPC swyddogaeth allweddol yn lleihau lledaeniad heintiau mewn cymunedau lleol ac yn amddiffyn y cyhoedd yn gyffredinol. Dylai fod yn gyfrifoldeb i bawb.

Nid yw dull gweithredu system gyfan yn golygu ailgynllunio iechyd a gofal cymdeithasol ac nid yw ychwaith yn golygu ailgynllunio awdurdodau lleol a chyrff perthnasol. Yn hytrach, mae'n galluogi newid y ddirnadaeth o IPC fel mater sy'n ymwneud ag ysbytai ac yn annog sylw i atal heintiau ar draws llwybrau gofal cleifion a'r rhyng-gysylltiad rhwng gofal mewn ysbytai a threfniadau iechyd cymunedol ac iechyd y cyhoedd. Dylai atal heintiau fod yn gyfrifoldeb i bawb ac mae angen i'r gweithlu IPC penodedig alluogi arferion gorau drwy addysg, cyngor arbenigol a gwybodaeth ar gyfer amrywiaeth o sefydliadau a rhanddeiliaid.

Ar ôl trafod pwysigrwydd cyflogi nyrs IPC i gynghori Llywodraeth Cymru a gwerthfawrogi cyngor nyrsio IPC ar wahanol lefelau o fyrddau iechyd lleol, mae'r adran hon yn edrych y tu hwnt i'r sefydliadau hyn.

Bydd yr adran hon yn edrych yn gyntaf ar IPC yng nghyd-destun cartrefi gofal.

## Cartrefi gofal

Mae 1,294 o gartrefi gofal yng Nghymru gan gynnwys 217 o gartrefi plant, 814 ar gyfer pobl hŷn a 263 o gartrefi nyrsio[1]. Mae trefnu strwythurol ac ariannu cartrefi gofal yng Nghymru yn gymhleth gyda'r cyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng darparwyr preifat, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Hefyd, mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ill dau yn gyfrifol am gynghori a hysbysu rheolwyr cartrefi gofal am ganllawiau newydd a newidiadau i bolisïau, a monitro safonau gofal a diogelu.

Yn ystod y don gyntaf o bandemig COVID-19, amlygwyd atal a rheoli heintiau yn y cartref gofal fel arfer hanfodol i sicrhau amgylchedd diogel i breswylwyr. Roedd defnyddio cyfarpar diogelu personol a gwybod sut i gael cyflenwadau yn elfen o hyn.

Drwy gydol cyfnodau cynnar y pandemig, daeth yn amlwg bod rhannu gwybodaeth am IPC yn heriol a bod sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n fwy anodd fyth. Roedd staff cartrefi gofal yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod preswylwyr yn cael eu hamddiffyn ac ar yr un pryd, yn ceisio dehongli nifer o newidiadau i'r canllawiau. Mae nyrsys cofrestredig sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn hanfodol er mwyn cyflawni gofal diogel o ansawdd uchel a chefnogi gwell canlyniadau iechyd a llesiant i breswylwyr cartrefi gofal ledled Cymru, gan eu galluogi i fod mor annibynnol â phosibl.

---

[1] John Bolton, 2020. Adolygiad Cyflym ar gyfer Cartrefi Gofal mewn Perthynas â Covid-19 yng Nghymru, Gorffennaf-Medi 2020, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/adolygiad-cyflym-ar-gyfer-cartrefi-gofal-mewn-perthynas-a-covid-19-yng-nghymru.pdf, ar gael mis Tachwedd 2020.

Fel ymarferwyr awtonomaidd, mae nyrsys cofrestredig yn defnyddio eu sgiliau clinigol a'u profiad i lywio eu barn glinigol i adnabod a rhagweld problemau, i gymryd camau gweithredu pan fydd cyflwr unigolyn yn dirywio, ac uwchgyfeirio eu pryderon mewn ffordd briodol er mwyn osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae nyrsys cofrestredig yn allweddol i reoli salwch acíwt, gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli cyflyrau hirdymor, a darparu ymyriadau cymhleth mewn sefyllfaoedd brys neu argyfwng. Maent hefyd yn helpu i gefnogi'r broses ddi-dor o drosglwyddo o ofal ysbyty a dychwelyd i'r cartref gofal pan fo angen.

Fodd bynnag, mae RCN Cymru yn gwybod o wybodaeth a gasglwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru mai dim ond 1,545 o nyrsys cofrestredig sy'n cael eu cyflogi gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd yng Nghymru.[2]

Mae'r gweithlu nyrsys cofrestredig yn y cartref gofal yn teimlo ei fod wedi'i orweithio ac na chaiff ei werthfawrogi;  mae'r ddirnadaeth hon wedi bod yn arbennig o wir o safbwynt ein haelodau yn ystod pandemig COVID-19.

Dylai cyngor IPC a chymorth nyrsio IPC fod ar gael i gartrefi gofal yng Nghymru.

Byddai cael cymorth strwythuredig a chyson gan nyrsys IPC arbenigol yn gymorth mawr i alluogi cartrefi gofal i amddiffyn eu cleifion a gweithredu canllawiau a newidiadau polisi. Mae hyn yn wir am unrhyw donnau o bandemig COVID-19 yn y dyfodol, ond hefyd wrth symud ymlaen mewn ymarfer arferol.

---

[2] Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018. *Gofal Cymdeithasol Cymru - Proffil gweithlu 2018: Gwasanaethau Darparwyr Gofal a Gomisiynwyd*, https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/adroddiadaur-gweithlu, ar gael ym mis Tachwedd 2020.

Byddai nyrsys IPC yn gallu cynghori ac addysgu ynghylch dehongli a gweithredu canllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a sicrhau bod gan gartrefi gofal yr offer priodol i weithredu'r canllawiau. Gallai nyrsys IPC roi cyngor ar ba gamau i'w cymryd i sicrhau bod preswylwyr a staff a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld yn cael eu hamddiffyn; atal achosion rhag digwydd ; hwyluso'r cartref i ofalu am breswylwyr yn y cartref yn ddiogel; lleihau'r tebygolrwydd o aildderbyn i'r ysbyty; a, lle mae achosion yn digwydd, helpu i reoli lledaeniad yr haint.

Byddai cael nyrs IPC i gynorthwyo gwaith rheolwyr cartrefi gofal, staff a nyrsys cofrestredig ynddo ei hun yn amlygu bod cartrefi gofal yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol i haeddu'r arbenigedd.

Mae angen buddsoddiad mewn IPC cymunedol gan ganolbwyntio ar weithio mewn ffordd gydgysylltiedig gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, cyflogwyr a GIG Cymru.

## Swyddogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ni all ac ni ddylai IPC fod yn gyfrifoldeb y gweithlu iechyd a gofal na GIG Cymru yn unig. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, AaGIC, awdurdodau lleol a chyflogwyr swyddogaeth allweddol i alluogi atal heintiau fel rhan o system.

Un o saith cyfrifoldeb Iechyd Cyhoeddus Cymru yw diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol.[3] Mae IPC yn gysylltiedig â hyn yn uniongyrchol.

[3] Iechyd Cyhoeddus Cymru. *Amdanom ni, Ein Blaenoriaethau,* https://icc.gig.cymru/amdanom-ni/ein-blaenoriaethau/, ar gael ym mis Tachwedd 2020.

Mae RCN Cymru yn argymell yn gryf bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwerthfawrogi ac yn parchu mewnbwn nyrsys IPC a gweithio â dull system gyfan i sicrhau y gall nyrsys IPC ddiogelu'r cyhoedd a chyflawni un o gyfrifoldebau allweddol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Mae gan AaGIC swyddogaeth i hyrwyddo'r angen am IPC fel elfen ganolog diogelwch cleifion.

Diben AaGIC yw 'integreiddio a meithrin arbenigedd a gallu wrth gynllunio, datblygu, llunio a chefnogi'r gweithlu'. Nod AaGIC yw cyflawni'r diben hwn drwy fabwysiadu egwyddorion 'PEOPLE'. O fewn yr egwyddorion hyn , mae AaGIC yn ceisio 'blaengynllunio i ragfynegi a chroesawu newidiadau' a 'chynnig cyfleoedd i ddatblygu i staff newydd a chyfredol o'r holl grwpiau proffesiynol a galwedigaethol drwy gydol llwybrau gyrfa'.

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd AaGIC a GCC strategaeth gweithlu 10 mlynedd, 'Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'.[4] Nod y strategaeth hon yw 'meithrin diwylliant o arweinyddiaeth dosturiol ... [i sicrhau] gweithlu sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cael eu gwerthfawrogi, gan system iechyd a gofal cymdeithasol fodern a chynhwysol.' Nod y strategaeth yw cyflawni'r egwyddorion o annog cynwysoldeb a llesiant a chynnig swyddogaethau a chyfleoedd sy'n denu, gwobrwyo, datblygu a chadw'r gweithlu.

---

[4] Gwella Addysg Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. 2020, *Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, https://aagic.gig.cymru/files/strategaeth-gweithlu-are-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol/, ar gael ym mis Tachwedd 2020

Gyda hyn mewn golwg, dylai AaGIC a GCC werthfawrogi pwysigrwydd nyrsys IPC a'u swyddogaeth yn gynghorwyr ac addysgwyr. Dylai AaGIC ddatblygu llwybr gyrfa ar gyfer nyrsys IPC yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau bod IPC yn cael y sylw angenrheidiol sydd ei angen arno wrth gyflawni ei ddiben a'i weledigaeth hefyd. Esbonnir hyn ymhellach yn Adran 3.

## Awdurdodau lleol a chyflogwyr

Mae 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan ganolog wrth ddarparu gwasanaethau i'w cymunedau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu dros 700 o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag: addysg, trafnidiaeth, tai, gwasanaethau cymdeithasol, rheoli gwastraff, iechyd yr amgylchedd a llawer mwy.

Mae awdurdodau lleol yn ganolog i'r gwaith o sicrhau amgylchedd diogel i'w cymunedau lleol. Byddai nyrsys IPC o fudd mawr i alluoedd awdurdodau lleol i gynllunio a gweithredu canllawiau a pholisi. Byddai nyrs IPC ochr yn ochr â gwasanaethau rheoli ansawdd a diogelu iechyd yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol ynghylch sut i sicrhau bod eu cymunedau'n cael eu diogelu. Er enghraifft, pe byddai achosion o COVID-19 yn gysylltiedig â chanolfan hamdden leol, byddai nyrs IPC gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gallu cefnogi dull system o reoli'r digwyddiad, gan weithio ar draws ffiniau sefydliadol i gynghori ar fesurau i gyfyngu lledaeniad heintiau ac addysgu staff y ganolfan hamdden leol ynghylch arferion gorau ar gyfer y dyfodol.

P'un a yw gwasanaeth yn uniongyrchol gysylltiedig â gofal iechyd – megis darparu gwasanaethau cymdeithasol, a gwasanaethau ysgolion – neu efallai yn ehangach ei bortffolio – megis rheoli gwastraff ac iechyd yr amgylchedd – gall nyrs IPC ddod â gwybodaeth eang y gellir ac y dylid ei defnyddio i sicrhau'r cyfleoedd gorau i hybu iechyd y boblogaeth ac atal heintiau.

Dylai pob un o'r 22 awdurdod lleol geisio cyflogi o leiaf un nyrs IPC i weithio ochr yn ochr â thimau sicrhau ansawdd. Byddai hyn yn gwella'n sylweddol y ddirnadaeth fod nyrsys IPC yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â gofal iechyd yn unig ac y byddent yn cynyddu gallu'r awdurdodau lleol i ymateb yn amserol i argyfwng a sicrhau diogelwch eu cymunedau o ddydd i ddydd.

# Adran 3 Sicrhau dull system gyfan i atal a rheoli heintiau

Mae gweithlu nyrsys IPC yn angerddol ac wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd, ond mae hefyd wedi blino. Mae pandemig COVID-19 wedi creu galw enfawr ar wasanaethau IPC a gwybodaeth gweithlu'r IPC.

Mae angen buddsoddiad brys i gadw'r gweithlu gwybodus presennol ac i gynyddu atyniad y swyddogaeth i sicrhau bod gweithlu ar gael i ateb gofynion yn y dyfodol. Mae cynllunio olyniaeth i wrthbwyso effaith ymddeoliadau yn fater brys, a dylai fod yn ganolog i'r ymateb ar ôl COVID-19.

## Cadw nyrsys

Rhaid canolbwyntio ar gadw staff. Mater o bwys allweddol i weithlu nyrsio IPC yw camu ymlaen mewn gyrfa a'r gallu i symud ymlaen o fewn y maes. Bydd yr adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar y pwnc hwn, ond cyn symud ymlaen, bydd yr adran hon yn cyfeirio at ddulliau a fyddai'n gwella'r ffordd y gellir cadw staff ar gyfer y gweithlu nyrsio cyffredinol, sef buddsoddi mewn cyflog teg a staffio diogel.

Mae ymgyrch *Tâl Teg Ar Gyfer Nyrsio* y Coleg Nyrsio Brenhinol yn galw am godiad cyflog o 12.5% ar gyfer staff nyrsio a gyflogir ar delerau ac amodau gwasanaeth Agenda ar gyfer Newid y GIG.

Byddai codiad cyflog teg, ystyrlon a chynnar yn cyfrannu'n sylweddol at gadw staff. I gael gwybod mwy am ymgyrch Tâl Teg Ar Gyfer Nyrsio y Coleg Nyrsio Brenhinol, [cliciwch yma.]

Byddai buddsoddi mewn gofal diogel ac effeithiol yn fuddiol iawn nid yn unig i'r gweithlu nyrsio IPC ond i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol. Byddai ymestyn Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn diogelu'r claf ac yn grymuso'r gweithlu drwy sicrhau bod byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau yn cyfrifo ac yn cynnal lefelau staff nyrsio yn unol â methodoleg benodol.

## Camu Ymlaen Mewn Gyrfa

Mae'n bwysig i'r gweithlu nyrsio allu camu ymlaen o fewn gyrfa. Mae'n rhaid i gyfleoedd arweinyddiaeth, addysgu ac ymchwil fod ar gael i nyrsys ar bob lefel.

O fewn IPC prin yw'r cyfleoedd neu'r strwythurau sydd ar gael i nyrsys ddatblygu eu gyrfaoedd. Er mwyn cadw'r gweithlu nyrsio presennol a denu'r genhedlaeth nesaf o nyrsys IPC, mae'n rhaid cael ffordd ystyrlon o gamu ymlaen drwy gydol gyrfa IPC, wedi'i ategu gan fynediad at hyfforddiant ac addysg briodol ac arbenigol.

## Nyrsys Ymgynghorol

Mae gan nyrsys ymgynghorol swyddi uchel iawn. Mae eu swyddogaeth yn cwmpasu ymarfer clinigol, addysg, ymchwil ac arweinyddiaeth glinigol.

Byddai buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol IPC yn sicrhau bod gan Gymru yr adnoddau ar gael i ddarparu gwybodaeth arbenigol ar draws systemau; byddai hefyd yn sicrhau bod gan Gymru yr adnoddau ar gael i addysgu'r genhedlaeth nesaf o nyrsys IPC. Byddai'r swyddi hyn hefyd yn hwyluso rhannu arbenigedd ar lefel uwch ar draws ffiniau cenedlaethol. Byddai hyn yn codi statws nyrsio IPC a chyfraniad Cymru ato. Rhaid i bob bwrdd iechyd lleol gyflogi nyrs ymgynghorol IPC a chynnwys adeiladu cynllunio olyniaeth yn eu Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol IPC yw buddsoddi yn y system gyfan a gosod atal a rheoli heintiau wrth wraidd iechyd a gofal cymdeithasol.

## Recriwtio

Dylai Llywodraeth Cymru ac AaGIC weithio gyda byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a chyflogwyr i wella atyniad IPC drwy ddatblygu cynlluniau recriwtio a llwybr gyrfa i nyrsys cofrestredig. Dylai hyn ddechrau gyda llwybr gyrfa cydlynol i IPC drwy gymhwyster safonol, cofnodadwy a chyfleoedd i hyfforddeion megis nyrsys cyswllt.

## Llwybr gyrfa

Ar hyn o bryd nid oes cymhwyster safonedig ar gyfer nyrs IPC y tu allan i'r cymwyseddau craidd. Cyflwynwyd cymwyseddau craidd ar gyfer IPC am y tro cyntaf gan Gymdeithas y Nyrsys Rheoli Heintiau yn 2000. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fe'u diwygiwyd gan Bwyllgor Addysg a Datblygiad Proffesiynol y Gymdeithas Atal Heintiau.

Gellir defnyddio'r cymwyseddau hyn i gynllunio rhaglenni addysg, cynorthwyo arfarniadau staff, a nodi'r gofynion ar gyfer gweithlu IPC.

Er bod y cymwyseddau craidd yn bwysig er mwyn sicrhau cysondeb yn hanfodion IPC, mae angen mynd y tu hwnt i hyn. Mae angen llwybr gyrfa cydlynol sy'n dechrau gyda chymhwyster safonol, cofnodadwy i sicrhau bod IPC yn cael ei gydnabod fel gyrfa wybodus â sgiliau uchel.

Dylai llwybr gyrfa penodol ar gyfer IPC gael ei ddatblygu gan AaGIC, GIG Cymru, arbenigwyr atal a rheoli heintiau a rhanddeiliaid allweddol. Dylai hyn adlewyrchu fframweithiau gyrfa a llwybrau presennol ar gyfer addysg nyrsio ar ôl cofrestru.

Bydd sefydlu llwybr gyrfa penodol gyda chymhwyster cofnodadwy a swyddi dan hyfforddiant yn denu nyrsys cofrestredig i'r yrfa, tra byddai sicrhau y gallant gamu ymlaen i lefel nyrs ymgynghorol yn cryfhau eu parodrwydd i aros yn yr arbenigedd.

Hefyd, dylid annog swyddi dan hyfforddiant megis Nyrsys Cyswllt fel ffordd o ddarparu cyflwyniad cychwynnol i faes IPC. Dylai Llywodraeth Cymru ac AaGIC annog cyflogwyr i ryddhau nyrsys cofrestredig o'u dyletswyddau clinigol i ymgymryd â'u swyddogaethau fel Nyrs Gyswllt.

## Nyrsys cyswllt

Diffinnir nyrsys cyswllt yn draddodiadol fel 'nyrsys wrth eu gwaith sydd â diddordeb amlwg mewn arbenigedd a chyswllt ffurfiol ag aelodau tîm arbenigol'. [5]

Mae nyrsys cyswllt yn bwysig ar gyfer cynllunio olyniaeth a datblygu nyrsys IPC posibl yn y dyfodol, gan fod y swyddogaeth yn rhoi'r cyfle i ymgysylltu ag arbenigwyr a datblygu sgiliau fel rheoli newid, addysg ac arweinyddiaeth. Mae'r swyddogaeth hefyd yn rhoi cyfle i gefnogi strategaethau diogelwch cleifion drwy ledaenu gwybodaeth ac arferion gorau mewn lleoliadau iechyd a gofal.

Mae'r swyddogaeth yn cynnig nifer o fanteision i nyrsys cyswllt a thimau arbenigol. Drwy hybu rhyngweithio rhwng y ddau, mae nid yn unig yn rhoi cipolwg i nyrsys cyswllt o yrfa bosibl, mae hefyd yn tynnu pwysau oddi ar ysgwyddau arbenigwyr gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar eu prif swyddogaethau.

Er gwaethaf cynnydd mewn poblogrwydd ers y 1990au, nid yw nyrsys cyswllt wedi'u defnyddio i'w llawn botensial yng Nghymru.

Yn 2017, ymunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr â Phrifysgol Bangor i weithredu a gwerthuso rhaglen nyrsys cyswllt yn y gymuned ar atal heintiau yng Nghymru. Edrychodd y rhaglen yn benodol ar nyrsys sy'n gweithio mewn ysbytai cymunedol.

[5] MacArthur 1998 fel y nodwyd yn y Ganolfan Wybodaeth am y Gweithlu (CFWI), 2015. *Adolygiad o weithlu nyrsys atal a rheoli heintiau,* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/507608/CfWI_Review_of_IPC_nurse_workforce.pdf, ar gael ym mis Rhagfyr 2020.

Cynlluniwyd y rhaglen i gefnogi nyrsys yn y swyddogaeth a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu drwy gwrs ar-lein pwrpasol a chyswllt rheolaidd â nyrsys atal heintiau arbenigol.

Gwerthuswyd y rhaglen yn 2019 a nodwyd pedair thema gyffredinol a gynhyrchodd, gyda'i gilydd, fodel cydlynol ar gyfer cyflawni nyrsys cyswllt ym maes atal a rheoli heintiau. Mae'r themâu'n cyfeirio at bwysigrwydd cyfathrebu, newid dirnadaethau, arweinyddiaeth ac addysg.[6]

Er gwaethaf y gwerthusiad ac adborth cadarnhaol i raddau helaeth gan y rhai sy'n ymwneud â'r prosiect, ychydig iawn sydd wedi'i wneud i barhau neu ehangu'r prosiect. Os y rheswm pam nad yw'r prosiect wedi'i ehangu yw pryder o ran materion ariannu, mae RCN Cymru yn credu y dylai'r prosiect ystyried defnyddio'r gronfa trawsnewid iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae RCN Cymru yn annog pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru i fabwysiadu a chydnabod swyddogaeth nyrs gyswllt fel swydd hyfforddai er mwyn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu darparu i nyrsys symud ymlaen ym maes IPC.

[6] Prifysgol Bangor, 2019. Rhaglen Nyrs Gyswllt i Atal Heintiau, https://research.bangor.ac.uk/portal/files/20547698/2018_Infection_Prevention_Link_Nurse_Programme.pdf, ar gael ym mis Tachwedd 2020.

# Adran 4 Edrych y tu hwnt i bandemig COVID-19

Gellid dadlau bod y papur cyfan hwn wedi ceisio edrych y tu hwnt i bandemig presennol COVID-19 a sicrhau gwerth IPC a'r gweithlu IPC wrth symud ymlaen.

Roedd y don gyntaf o bandemig COVID-19 yn amlygu'r angen am IPC ac am gyngor ac arweinyddiaeth nyrsio IPC ar bob lefel yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a meysydd yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, mae IPC a'r gweithlu IPC, gan gynnwys nyrsys IPC, bob amser wedi bod yn bwysig i ddiogelwch cleifion a diogelwch y cyhoedd. Mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, heintiau sydd newydd ddod i'r amlwg a'r cynnydd mewn heintiau AMR yn creu heriau difrifol a pharhaus.

Mae angen dull system gyfan i newid dirnadaethau o IPC a sicrhau bod yr angen am gyngor IPC yn cael ei gydnabod ym mhob maes sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch y cyhoedd. Er mwyn sicrhau dull system gyfan, mae angen gweithlu i hwyluso hyn.

Mae swyddogaeth nyrsys IPC yn amlweddog. Er bod ganddynt wybodaeth am ficrobioleg, imiwnoleg ac epidemioleg, maent hefyd yn ceisio addysgu, ymchwilio ac arwain. Mae eu swyddogaeth yn hanfodol i ddiogelwch cleifion, addysg y gweithlu ac, yn ehangach, i ddiogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn arbennig o wir am y nyrs ymgynghorol. Mae angen cynyddu nifer y nyrsys ymgynghorol IPC er mwyn sicrhau bod gweithlu arbenigol medrus a gwybodus iawn ar gael ar gyfer y dyfodol.

A hithau’n swyddogaeth uchel ym maes nyrsio, mae gan nyrs ymgynghorol gyfoeth o wybodaeth, arbenigedd a phrofiad a all helpu i gynllunio polisïau a chanllawiau yn strategol. Hefyd, maent yn hanfodol er mwyn sicrhau bod heintiau'n cael eu rheoli a'u hatal mewn ardaloedd cymunedol, megis ward ysbyty â 4 gwely, canolfan hamdden, ardaloedd staffio mewn lleoliadau gofal iechyd, ysgol ac ystafell gymdeithasol cartref gofal.

Mae ehangu swyddogaeth nyrs ymgynghorol IPC yn hanfodol, nid yn unig i gadw'r gweithlu presennol, ond hefyd i ddenu'r genhedlaeth nesaf o nyrsys i swyddogaeth IPC. Gyda chynllunio olyniaeth clir, bydd swyddogaeth nyrs IPC yn dod yn fwy deniadol i'r rhai ym maes nyrsio. Hefyd, mae angen cymhwyster clir, cofnodadwy ac mae angen sicrhau bod swyddogaethau hyfforddai ar gael er mwyn ehangu'r gweithlu.

Bydd ehangu a chefnogi'r gweithlu IPC yn caniatáu i ddull system gyfan fod yn llwyddiannus gan wneud IPC yn rhan o wead maes iechyd a diogelwch y cyhoedd.

## Y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)

Y Coleg Nyrsio Brenhinol yw’r sefydliad proffesiynol ac undeb llafur mwyaf yn y byd ar gyfer nyrsys, yn cynrychioli dros 435,000 o nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 26,000 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau’r RCN yn gweithio yn y sector annibynnol a'r GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau wedi'u lleoli yn y gymuned.

Mae'r RCN yn sefydliad ar gyfer y DU gyfan, gyda'i Fyrddau Cenedlaethol ei hun ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cyhoeddwyd Mawrth 2021.
Cysylltwch â Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk am ragor o wybodaeth